Hydref 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Interim

## Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran Cynllun Blynyddol 2018-19 rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018. Fe'i paratowyd ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ganddynt, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o'r graddau:

- y mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi arfer eu swyddogaethau yn unol â Chynllun Blynyddol 2018-19 a baratowyd o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- y cafodd cynnydd ei wneud i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun;
- y cafodd cynnydd ei wneud i gyflawni targedau'r prif ddangosyddion perfformiad.

Os hoffech gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych gwestiynau ynghylch ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @WalesAudit |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

# Cynnwys


Rhagair 4

Trosolwg

Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi arfer eu swyddogaethau yn unol â'r weledigaeth a’r amcanion a nodir yn ein Cynllun 6

Dadansoddi’r perfformiad

Ni fu’n rhaid gwyro’n sylweddol oddi wrth raglenni gwaith arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru 8

Rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd a thargedau’r dangosyddion perfformiad allweddol 9

Atodiadau

Gwybodaeth fanwl am raglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018

Atodiad 1 – Prosiectau archwilio 19

Atodiad 2 – Gwaith arfer da 25

Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu effeithiol ac atebolrwydd 26

Atodiad 4 – Gweithgareddau ymgysylltu a chydweithio 27

Atodiad 5 – Ein trefniadau llywodraethu ac arwain 29

Atodiad 6 – Ein pobl a'n cyllid 30

# Rhagair

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym hyd yma i gyflawni Cynllun Blynyddol 2018-19: Gwneud i arian cyhoeddus gyfrif.

Yn yr adroddiad, rydym yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed o ran ein blaenoriaethau tair blynedd a thargedau'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio cynyddu effaith y gwaith o archwilio sector cyhoeddus Cymru ac sy'n seiliedig ar ein gweledigaeth gyffredinol o sicrhau bod:

- Pobl Cymru yn ymddiried ynom
- Cyrff cyhoeddus yn gwerthfawrogi ein gwaith
- Ein pobl yn rhagori

Rydym yn cadarnhau na fu'n rhaid inni wyro'n sylweddol oddi wrth y rhaglenni gwaith a nodir yn ein Cynllun. Mae'r holl waith arfaethedig wedi'i gyflawni neu'n mynd rhagddo, a gellir priodoli hyn i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff Swyddfa Archwilio Cymru ac i barodrwydd y cyrff a archwilir i gydweithredu â ni.

Mae'r chwe mis diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol yn Swyddfa Archwilio Cymru, ac rydym wedi gweithio'n galed i bontio'n effeithiol o'r naill Archwilydd Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol i'r llall yn sgil ymddeoliad Huw Vaughan Thomas, gan barhau i gyflawni ein rhaglenni gwaith ar yr un pryd.

Drwy ein cylch gwaith unigryw i ddilyn hynt y bunt gyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y momentwm hwn yn ystod ail hanner 2018-19 ac i roi mwy o ystyriaeth i ffyrdd o newid ein hamgylchedd gweithredol i sicrhau ein bod yn dal i fod yn addas ar gyfer y dyfodol.



**Isobel Garner**
Cadeirydd ar ran Swyddfa Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Crynodeb o Gynllun Blynyddol 2018-19

## EIN GWELEDIGAETH

- Pobl Cymru yn ymddiried ynom
- Cyrff cyhoeddus yn gwerthfawrogi ein gwaith
- Ein pobl yn rhagori

## EIN NOD

Mae pobl Cymru a Chynulliad Cymru yn gwybod a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n ddoeth ai peidio

## EIN HAMCANION

- Rhoi sicrwydd amserol ynghylch y modd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu gwarchod
- Rhoi mewnwelediad o'r modd y defnyddir adnoddau i fodloni anghenion cyfredol pobl a'u hanghenion yn y dyfodol
- Nodi a hyrwyddo ffyrdd posibl o wella gwasanaethau cyhoeddus

Bod yn sefydliad atebol ac uchel ei barch sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n lle gwych i weithio

## BLAENORIAETHAU STRATEGOL



## EIN RHAGLENNI GWAITH

| | | |
|---|---|---|
| Prosiectau archwilio | Gwaith ar arferion da | Ein pobl a'n cyllid |
| Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol | Ymgysylltu a gweithgarwch ar y cyd | Ein trefniadau llywodraethu ac arwain |

## EIN GWERTHOEDD

Annibyniaeth
Diffuantrwydd
Tegwch
Blaengaredd
Cydweithio
Edrych i'r Dyfodol

## EIN DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Dangosyddion cyflawniad ac effaith

Dangosyddion arweinyddiaeth a diwylliant

Rheoli'r dangosyddion busnes

## EIN HAMGYLCHEDD GWEITHREDU

Rydym yn parhau i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol

Mae'r tirlun yn parhau i esblygu o ran gwleidyddiaeth a pholisi

Erbyn hyn, mae'n ofynnol i drefniadau llywodraethu fod yn ehangach eu cwmpas

Rydym yn byw mewn cymdeithas sydd wedi'i rhwydweithio fwyfwy

# Trosolwg

## Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi arfer eu swyddogaethau yn unol â'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun

Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi sicrhau bod ein datganiad gweledigaeth newydd sy'n amlinellu ein dyheadau ar gyfer y dyfodol yn llywio popeth yr ydym yn ei wneud.

**MAE POBL CYMRU YN YMDDIRIED YNOM**

Fe'n hystyrir yn gyfrwng ar gyfer da ac yn warchodwr y pwrs cyhoeddus

Mae'r hyn a ddywedwn yn awdurdodol, yn amserol ac yn dreiddgar

**CYRFF CYHOEDDUS - GWERTHFAWROGI EIN GWAITH**

Mae ein gwaith yn berthnasol ac yn ymateb i fyd sy'n newid o hyd


Mae gennym enw da am waith dylanwadol ac arloesol o ansawdd uchel

**MAE EIN POBL YN RHAGORI**

Mae gan ein staff enw da am fod yn hygred a theg

Mae ein staff yn hynod fedrus, ymroddedig a hyddysg

Mae'r holl waith yr ydym wedi ymgymryd ag ef yn ystod y cyfnod adrodd interim wedi canolbwyntio ar gyflawni ein nod cyffredinol – bod pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n ddoeth – drwy gyflawni'r amcanion allweddol o roi sicrwydd amserol, rhoi mewnwelediad, nodi a hyrwyddo gwelliannau, a bod yn sefydliad sy'n cael ei gynnal yn dda.


Nod
Bod y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth
Amcanion allweddol
Rhoi sicrwydd amserol ar y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu gwarchod.
Rhoi cipolwg ar y ffordd y mae adnoddau yn cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol
Nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella gwasanaethau cyhoeddus
Bod yn sefydliad uchel ei barch a redir yn dda sy'n lle gwych i weithio ynddo
Amcanion yr Archwilydd Cyffredinol
Amcan Swyddfa Archwilio Cymru

# Dadansoddi'r perfformiad

## Ni fu'n rhaid gwyro'n sylweddol oddi wrth raglenni gwaith arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

Rydym wedi cyflawni'r holl waith arfaethedig a nodir Nghynllun Blynyddol 2018-19 neu mae'n mynd rhagddo yn ôl y bwriad.


Yn atodiadau'r adroddiad hwn, ceir gwybodaeth fanwl am raglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018.

Yn y Cynllun, nodir bod y rhaglen o waith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod modd ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau sy'n newid, a bod y cynlluniau ar gyfer astudiaethau gwerth am arian penodol yn cael eu hadolygu. Ers cyhoeddi ein Cynllun, rydym wedi gwneud newidiadau i rai astudiaethau gan fod cwmpas y gwaith wedi'i ddiffinio'n gliriach.


# Rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd a thargedau'r dangosyddion perfformiad allweddol



Erbyn 30 Medi 2018, roeddem wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r deg blaenoriaeth tair blynedd a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2018-19. Mae Arddangosyn 1 yn rhoi sylwebaeth gryno ar y cynnydd a wnaed hyd yma i gyflawni pob blaenoriaeth.


Arddangosyn 1 – Sylwebaeth ar y cynnydd a wnaed i gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd


| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
| --- | --- |
| Integreiddio dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein trefniadau ar gyfer rhoi ein rhaglenni gwaith archwilio ar waith.  | Ym mis Mai 2018, cyhoeddwyd Myfyrio ar Flwyddyn Un, sef ein hasesiad o'r modd y mae cyrff cyhoeddus Cymru wedi ymateb i ofynion y Ddeddf. Prif fwriad yr adroddiad oedd cynorthwyo sefydliadau yn ystod y cyfnod pontio cynnar.<br>Ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, cynhaliwyd cynhadledd i randdeiliaid i rannu ac i drafod canfyddiadau'r adroddiad, a daeth nifer dda o bobl i'r gynhadledd.<br>Fel y nodir yn atodiadau'r Adroddiad Interim hwn, cafodd gwaith archwilio perthnasol ei integreiddio i'n rhaglenni gwaith ym maes iechyd a llywodraeth leol, yn ogystal â'n rhaglen astudiaethau, yn 2018 i fodloni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf. |

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| rchwilio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus integredig yng Nghymru o safbwynt pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.<br> | Rydym yn rhoi pwyslais penodol ar ddeall safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau pan fyddwn yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau i ddarparu gwasanaethau.<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, cwblhawyd ein hadolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol i gymunedau gwledig. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, cynhaliwyd arolygon wyneb yn wyneb a thros y ffôn gyda thros 1,500 o bobl sy’n byw yng nghefn gwlad.<br>Fel rhan o’n hastudiaeth gyfredol ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rydym yn cyf-weld gofalwyr i ddod i ddeall faint o ofal a chymorth y maent yn ei gael ac i ba raddau y mae eu hanghenion yn cael sylw.<br>Mae ein hadolygiad o Wasanaethau Cynllunio hefyd yn cynnwys arolwg cyhoeddus (a lansiwyd yn y Sioe Frenhinol) i gasglu barn pobl am y graddau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cefnogi llesiant hirdymor eu cymunedau.<br>Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd crynodeb o ganfyddiadau ein harchwiliad lleol ynghylch Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Tu Allan i Oriau. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, cynhaliwyd arolwg ymhlith cleifion a oedd wedi cysylltu â’r gwasanaethau tu allan i oriau yn ddiweddar. I ddod i ddeall sut brofiad yw bod yn glaf sy’n defnyddio’r gwasanaethau hyn, cynhaliodd tîm yr astudiaeth ymarfer ‘cwsmer cudd’ i asesu effeithiolrwydd yr wybodaeth a ddarperir ar linellau ffôn a gwefannau meddygon teulu. Bu i ganfyddiadau’r arolwg ymhlith cleifion a’r ymarfer cwsmer cudd ein helpu i lunio ein hargymhellion ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol. |


| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Cryfhau'r graddau y mae pwyllgorau'r Cynulliad yn ymgysylltu â'n gwaith a chanfod ffyrdd o wella ein gwaith i gefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol.<br> | Yn ychwanegol at ein hymgysylltu helaeth arferol â’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, bu inni friffio Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu’r Cynulliad ar ganfyddiadau ein hadolygiad o Berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood.<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, bu inni hefyd gyhoeddi Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru ar gyfer y rheini sy’n ymwneud â chraffu ar wasanaethau cyhoeddus. Ymhlith y cynulleidfaoedd targed mae gwleidyddion etholedig sy’n aelodau o bwyllgorau craffu, aelodau annibynnol o fyrddau a phwyllgorau cyhoeddus, academyddion, sefydliadau’r gymdeithas sifil, a’r cyfryngau.<br>Ceir mwy o wybodaeth am y ffordd yr ydym wedi cefnogi gwaith craffu effeithiol ac atebolrwydd dros y chwe mis diwethaf yn Atodiad 3 o’r adroddiad hwn. |
| Gwella effaith gyfunol archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau allanol yng Nghymru drwy rannu cudd-wybodaeth ac adnoddau yn well.<br> | Yn y gwanwyn 2018, cynhaliwyd cyfarfod chwemisol cyntaf Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Nod y cyfarfodydd hyn yw sicrhau mwy o gysondeb o ran y modd y mae partneriaid Arolygu Cymru yn rhannu gwybodaeth am awdurdodau unigol.<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, mae staff gweithredol holl bartneriaid Arolygu Cymru yn rhanbarth y Gogledd hefyd wedi cynnal cyfarfodydd. Yn sgil treialu’r cyfarfodydd hyn yn y Gogledd, bwriedir cynnal cyfarfodydd o’r fath ym mhob clwstwr rhanbarthol i roi cyfle i gydweithwyr drafod materion sydd o ddiddordeb iddynt i gyd ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws ein cynlluniau gwaith.<br>Ochr yn ochr â’n rhaglen waith ar y cyd ag Estyn i adolygu awdurdodau addysg lleol, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cydweithio’n agos dros y chwe mis diwethaf i hwyluso cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer ymarferwyr perthnasol i rannu gwersi ynghylch y ffordd y gall gwasanaethau rhyddhau cleifion o’r ysbyty sicrhau gwell canlyniadau i unigolion. |

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Ymgysylltu ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn rhannu a goleuo arfer gorau a chudd-wybodaeth.<br> | Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ac yn barhaus ag asiantaethau archwilio eraill, gan gynnwys drwy weithgorau'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus. Rydym wedi trin a thrafod testunau fel rhaglen secondiadau cyfatebol, meincnodi perfformiad, a rhannu gwybodaeth am faterion pwysig fel y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Brexit.<br><br>Rydym hefyd wedi meithrin a chynnal cysylltiadau â swyddfeydd archwilio tramor, gan gynnwys drwy ein haelodaeth o EURORAI, a bu Archwilydd Cyffredinol Malta yn ymweld â ni ar ymweliad astudio ym mis Medi 2018. |
| Gwella darllenadwyedd a hygyrchedd ein cynnyrch archwilio er mwyn cynyddu eu cyrhaeddiad a'u heffaith hyd yr eithaf.<br> | Yn gynnar yn 2018, sefydlwyd prosiect gorchwyl a gorffen mewnol i bwyso a mesur ffyrdd o drawsnewid y ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac i annog mwy o bobl i ymgysylltu â'n gwaith. Ym mis Gorffennaf 2018, cyflwynodd y grŵp prosiect gyfres o argymhellion i'r rheolwyr, gan gynnwys argymhellion i wneud ein hadroddiadau'n fwy darllenadwy ac i ddod i ddeall anghenion amrywiol ein cynulleidfaoedd yn well. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y ffordd orau o roi'r argymhellion hyn ar waith.<br><br>Rydym hefyd wedi parhau i weithio'n galed i sicrhau bod ein gwefan yn hygyrch i gynulleidfa eang ac i wella profiad pob defnyddiwr. Cafodd ein gwefan achrediad hygyrchedd gan y Ganolfan Hygyrchedd Digidol ym mis Mawrth 2017. Yn ddiweddar, rydym wedi caffael asesiad pellach gan Ymddiriedolaeth Shaw a fydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Rydym hefyd wedi parhau i wneud mwy o ddefnydd o weminarau a phodlediadau fel dulliau ychwanegol ac effeithiol o rannu gwersi a syniadau sy'n dod i'r amlwg o ran Arfer Da ymhlith darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. |

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Defnyddio egin-dechnoleg i wella'r modd yr ydym yn canfod, yn caffael ac yn dadansoddi data, a'r modd yr ydym yn cyflwyno ac yn darlunio ein canfyddiadau.<br> | Drwy’r broses Amcangyfrif, bu inni sicrhau mwy o arian yn 2018-19 i roi prosiectau dadansoddeg data ar waith mewn gwahanol rannau o'r busnes, gan gynnwys drwy recriwtio staff penodedig, prynu trwyddedau meddalwedd perthnasol a chaffael hyfforddiant arbenigol. Yn benodol, rydym wedi mynd ati yn ystod y cyfnod adrodd i ddatblygu porthol i goladu data’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) o ffynonellau niferus, offeryn samplu ar gyfer archwiliadau ariannol, ap mapio geo-ofodol, a llyfrgell ar-lein i sicrhau bod modd i staff rannu offer, technegau ac awgrymiadau ynghylch defnyddio dadansoddeg yn eu gwaith.<br><br>Mae cydweithio hefyd yn rhan bwysig o’n gwaith yn y maes hwn. Ym mis Mai 2018, cyfarfu aelodau o’n tîm dadansoddi data â chydweithwyr o asiantaethau archwilio eraill y DU i bennu ffyrdd o gydweithio’n well ac o rannu arferion da o ran datblygiadau arloesol. Ar hyn o bryd, rydym yn pwyso a mesur cyfleoedd eraill i gydweithredu, gan gynnwys gyda Data Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phrif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. |
| Mabwysiadu dulliau gweithio newydd er mwyn darparu gwasanaeth archwilio effeithlon sy'n addas i'r dyfodol wrth i'n hamgylchedd gweithredu newid.<br> | WRydym yn dal i bwyso a mesur ffyrdd newydd a mwy arloesol o gyflawni ein gwaith archwilio ac o gyflwyno’r canfyddiadau. Yn ystod y cyfnod adrodd interim, rydym wedi treialu’r dull y byddwn yn ei ddefnyddio i gyflawni dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), ac rydym wedi gwneud mwy o ddefnydd o’r dull ‘adrodd ffeithiau yn unig’, fel yn achos ein hadroddiad am Berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood.<br><br>Yn ddiweddar, rydym wedi lansio ein prosiect gorchwyl a gorffen diweddaraf i herio rhai o’n dulliau gweithio mwy ‘traddodiadol’. Ymhlith y meysydd yr ydym yn ymchwilio iddynt ar gyfer y prosiect hwn mae taro’r cydbwysedd cywir rhwng anghenion gweithio hyblyg staff unigol a galwadau busnes cyffredinol, ystyried a yw ein safleoedd presennol wedi’u trefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac ystyried pa fath swyddfeydd y mae’n debygol y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol. |

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Cyflwyno strategaeth pobl sy'n ymateb i ganlyniadau ein harolwg staff, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn galluogi ein staff i ragori yn eu gwaith.<br> | Lansiwyd ein Strategaeth Pobl ym mis Ebrill 2018, ac mae'n amlinellu ein pedair blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2021 i helpu i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn lle gwych i weithio. Mae blaenoriaethau'r Strategaeth yn seiliedig ar y meysydd gwella a bennwyd yn arolwg staff 2017 (fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18) a'r dadansoddiad o'r wybodaeth cyflogaeth a gyhoeddwyd yn Adroddiad Cydraddoldeb 2016-17. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi cychwyn a chyflawni gwaith ar nifer o brosiectau a fydd yn cyfrannu at wireddu'r Strategaeth gyffredinol.<br>Mae nifer o'r prosiectau sy'n ategu ein Strategaeth Pobl hefyd yn gydnaws â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a bydd yn ein cynorthwyo i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb a nodir ynddo. |
| Gwella'r modd yr ydym yn rheoli gwybodaeth a data, gan gynnwys ymateb yn effeithiol i'r broses o gyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.<br> | Rydym wedi cwblhau camau allweddol rhaglen weithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gan gynnwys llunio canllaw i'r staff ar y gyfraith diogelu data a rhoi rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar waith ar gyfer yr holl staff.<br>Rydym hefyd wedi cyhoeddi Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan sy'n amlinellu'r hyn y gellir ei ddisgwyl pan fydd Swyddfa Archwilio Cymru'n casglu gwybodaeth bersonol, ac yn egluro sut yr ydym yn diogelu preifatrwydd unigolion.<br>Ym mis Mai 2018, bu inni ysgrifennu at bob corff a archwilir i roi gwybod iddynt am brosesu teg a throsglwyddo gwybodaeth yn ddiogel. Roedd y llythyr yn nodi nad yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'n effeithio ar hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd hefyd yn gofyn am i'r hysbysiadau prosesu teg a roddir gan y cyrff hynny i'w cyflogeion, eu contractwyr a'u defnyddwyr gyfeirio at gasglu data a'u rhannu â'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'i waith archwilio. |

Yn 2018-19, pan oeddem yn paratoi ein Cynllun Blynyddol, aethpwyd ati i adolygu ac i ddiwygio ein fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau bod ein mesurau'n cydweddu'n gliriach â'n hamcanion strategol. Rydym yn defnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ein perfformiad a'n risgiau, ac i adrodd ac adfyfyrio arnynt.




Yn Arddangosyn 2, ceir crynodeb o'r sefyllfa gyffredinol ar 30 Medi 2018 o ran cyflawni targedau'r 27 dangosydd perfformiad allweddol.

Lle bo'n briodol, byddwn yn asesu ein perfformiad ar sail dreigl flynyddol. O ran rhai mesurau perfformiad perthnasol, mae'r ffigurau'n disgrifio ein perfformiad rhwng 1 Hydref 2017 a 30 Medi 2018.

Arddangosyn 2 – Y sefyllfa ar 30 Medi 2018 o ran cyflawni targedau ein dangosyddion perfformiad allweddol

## CYFLAWNIAD AC EFFAITH

| | | |
|---|---|---|
| 98% | Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu | Wedi cyflawni ein targed |
| £0 | gwerth yr arbedion posibl a bennwyd drwy ein gwaith | Angen gwella |
| 89% | o randdeiliaid y tybir ein bod yn cyflawni amcanion yr Archwilydd Cyffredinol | Wedi cyflawni ein targed |
| 89% | o gynhyrchion archwilio allweddol a gyflawnwyd ar amser | Angen gwella |
| 1,326 | y nifer sy'n bresennol yn ein seminarau a'n gweminarau dysgu ar y cyd | Wedi cyflawni ein targed |
| 98% | oedd yn bresennol yn ein digwyddiadau cyfnewid arfer da a farnodd fod y digwyddiadau'n fuddiol | Wedi cyflawni ein targed |
| 32% | o ymweliadau â'r wefan lle cyflawnir un weithred o leiaf e.e. lawrlwytho adroddiad | Angen gwella |
| 10,338 | o ymweliadau â'r wefan lle cyflawnir o leiaf un gweithrediad | Angen gwella |
| | sgôr Klout – mesuriad o'n dylanwad yn y cyfryngau cymdeithasol* | |
| 1 | achos lle na chyflwynir ymateb llawn ynghylch gwariant cyhoeddus a godir drwy ohebiaeth cyn pen 30 diwrnod | Yn agos at gyflawni ein targed |
| 19 | nifer yr adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd | Wedi cyflawni ein targed |

* Nid yw'r mesur sgôr Klout yn cael ei ddefnyddio mwyach. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych am ddull arall sy'n mesur lefel gyffredinol yr ymgysylltu ar bob platfform cyfryngau cymdeithasol.

Wedi cyflawni ein targed — Yn agos at gyflawni ein targed — Angen gwella — Angen gwella'n sylweddol

# ARWEINYDDIAETH A DIWYLLIANT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 70% | canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol ar gyfer ymgysylltu | Wedi cyflawni ein targed |
| | 83% | o staff yn teimlo'n bositif am amcanion a phwrpas ein sefydliad | Yn agos at gyflawni ein targed |
| | 52% | o staff yn teimlo'n bositif am ein harweinyddiaeth a rheoli newid | Yn agos at gyflawni ein targed |
| | 77% | o staff yn teimlo'n gadarnhaol am ein diwylliant sefydliadol | Yn agos at gyflawni ein targed |
| | 74% | o staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn ag effeithiolrwydd eu rheolwr | Yn agos at gyflawni ein targed |
| | 82% | o staff yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn gynhwysol | Wedi cyflawni ein targed |
| | 61% | o staff yn teimlo'n bositif am ein trefniadau dysgu a datblygu | Yn agos at gyflawni ein targed |
| | 81% | o staff yn teimlo'n bositif am yr adnoddau sydd ar gael iddynt a'u llwyth gwaith | Wedi cyflawni ein targed |

Wedi cyflawni ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwella'n sylweddol

# RHEOLI'R BUSNES

| | | |
|---|---|---|
| 7.9 | diwrnod y flwyddyn wedi'u colli fesul aelod o staff | |
| 1.5% | o amrywiant mewn gwariant gros o'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif 2018-19 | |
| | cyfran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 diwrnod gwaith* | |
| £0.25m | o arbedion cost ac effeithlonrwydd wedi'u a nodwyd ar draws y busnes | |
| £3,340 | o gostau ystâd fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn | |
| 0 | cwyn wedi'u derbyn a'u cynnal am ein darpariaeth Gymraeg | |
| Lefel 4 | Wedi'n hachredu i Lefel 4 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd | |
| 402 | tunnell o allyriadau cyfwerth $CO_2$ wedi'u cynhyrchu | |

* Nid ydym yn gallu adrodd ynghylch y dangosydd hwn ar hyn o bryd oherwydd ein bod yn trosglwyddo i system gyllid newydd.

Wedi cyflawni ein targed | Yn agos at gyflawni ein targed | Angen gwella | Angen gwella'n sylweddol

# Atodiad 1 – Prosiectau archwilio

## Gwaith archwilio a gyflawnir mewn cyrff llywodraeth leol

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cynnwys ystod eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol, a chynghorau tref a chymuned. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, ardystio hawliadau a ffurflenni, archwiliadau ac asesiadau gwella, astudiaethau llywodraeth leol a gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

### Archwilio cyfrifon

22 awdurdod unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

4 comisiynydd heddlu a throseddu

4 prif gwnstabl

8 cronfa bensiwn

Nifer o gyrff llywodraeth leol llai, gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr

Archwilio 735 cyngor tref a chymuned ar sail sicrwydd cyfyngedig

### Astudiaethau a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth

Comisiynu gwasanaethau llety i oedolion ag anableddau dysgu yn strategol

Gwasanaethau i gymunedau gwledig

Defnyddio data

### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

Hyd at 22 cynllun gwerth tua £3 biliwn sy'n gysylltiedig â thua 175 hawliad unigol

### iliadau ac asesiadau gwella

22 awdurdod unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

22 awdurdod unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Gwasanaethau cynllunio

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig

Trefniadau archwilio mewnol cynghorau tref a chymuned

## Gwaith archwilio a gyflawnir yng nghyrff y GIG

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar draws GIG Cymru'n cynnwys pob un o'r saith bwrdd iechyd a'r tair ymddiriedolaeth GIG, yn ogystal â gwaith Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG, ac mae'n adrodd ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae hefyd yn pennu a yw'r cyrff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

### Archwilio cyfrifon

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 ymddiriedolaeth GIG
- Cyfrifon cryno'r byrddau iechyd lleol
- Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Asesiadau strwythuredig

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 ymddiriedolaeth GIG
- Cymharu agweddau ar lywodraethu ar sail Cymru gyfan
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Gwaith archwilio perfformiad lleol

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 ymddiriedolaeth GIG
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

- Gofal sylfaenol
- Y Gronfa Gofal Integredig
- Codio clinigol
- Orthopedeg

### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

- 7 bwrdd iechyd lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Gwaith archwilio a gyflawnir mewn cyrff llywodraeth ganolog

Mae sector llywodraeth ganolog Cymru'n cynnwys ystod amrywiol o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr statudol amrywiol, a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn wahanol i'r drefn ar gyfer cyrff iechyd a chyrff llywodraeth leol, nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad ym mhob un o gyrff y llywodraeth ganolog. Yn hytrach, mae'n rhoi barn flynyddol ar eu cyfrifon, ac mae'n cyflawni gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer y cyrff hynny a restrir yn y Ddeddf. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith archwilio perfformiad a gyflawnir yn y sector hwn yn rhan o raglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian.

### Cyfrifon Llywodraeth Cymru

- Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru
- Cyfrif ardrethi annomestig
- Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru
- Cymeradwyo taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru

### Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prif Gyfrif a Chyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Cymwysterau Cymru

### Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

### Adrannau anweinidogol

- Awdurdod Cyllid Cymru

### Cwmnïau Llywodraeth Cymru

- Hybu Cig Cymru
- Dewis Gyrfa
- Hwb Gwyddorau Bywyd
- Sector Development Wales

### Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gofal Cymdeithasol Cymru

### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

## Gwaith archwilio i’w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, adroddiadau cryno am ganfyddiadau gwaith archwilio ar draws cyrff y GIG, cyrff llywodraeth ganolog a/neu gyrff llywodraeth leol, ac archwiliadau a gynhelir yng ngoleuni materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd a bennir drwy ein gwaith archwilio neu a godir gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Mae allbynnau rhan helaeth o'r rhaglen hon yn ategu gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ac fe allai ategu gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad hefyd.

Mae’r rhaglen waith yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod modd ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau sy’n newid. Fe all fod allbynnau ychwanegol yn ystod 2018-19 sy'n deillio o waith dilynol ar destunau archwilio blaenorol, o ymchwiliadau a wneir yng ngoleuni materion sy’n peri pryder i’r cyhoedd neu’r senedd, neu o waith archwilio perfformiad lleol lle ceir materion neu wersi sy’n berthnasol ar raddfa ehangach.

Yn ychwanegol at yr adroddiadau a ddisgrifir yn yr adran hon, anfonodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mehefin 2018 i roi diweddariad iddo am gyllid y GIG, a hynny i ategu gwaith y Pwyllgor o ran craffu ar Lywodraeth Cymru a chyrff y GIG. Ym mis Gorffennaf, rhannodd Huw Vaughan Thomas, ei argraffiadau â’r Pwyllgor wrth iddo ymadael â’i swydd. Rhannodd ei safbwyntiau personol ar yr heriau, y risgiau a’r cyfleoedd sy’n wynebu pawb sy’n ceisio gwella’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, eu llywodraethu a chraffu arnynt.

## Value-for-money studies, summary reports or reactive examinations completed

- Darlun o Ofal Sylfaenol yng Nghymru
- Siaradwch fy iaith: Goresgyn Rhwystrau Iaith a Chyfathrebu Mewn Gwasanaethau Cyhoeddus
- Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus Wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood
- Gwasanaethau Sylfaenol Tu Allan i Oriau
- Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru
- Contractau Gwerthu Pren a Ddyfarnwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (memorandwm)
- Rheoli Effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE

## Adroddiadau cryno sydd ar y gweill

- Radioleg
- Apwyntiadau Cleifion Allanol (adroddiad dilynol)
- Menter Twyll Genedlaethol 2016-17

## Astudiaethau gwerth am arian ac archwiliadau ymatebol sy'n mynd rhagddynt

- Rheoli Gwastraff (atal gwastraff)
- Rheoli Gwastraff (ailgylchu dinesig)
- Rheoli Gwastraff (caffael seilwaith trin gwastraff)
- Cynllun 'Fy Ngherdyn Teithio'
- Cyllid Busnes
- Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020
- Costau asiantaeth y GIG
- Datganoli Cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid)
- Gwella Llesiant Pobl Ifanc
- Adolygiad Trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Gwella Ffordd yr A465 (Rhan 2)
- Parodrwydd i Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

# Atodiad 2 – Gwaith arfer da

## Cyfnewidfa Arfer Da

Drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da, rydym yn darparu adnoddau rhad ac am ddim ar-lein sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, llunwyr polisïau a phenderfynwyr i gael gafael ar wybodaeth a fydd yn cynyddu eu dealltwriaeth.

Un o brif amcanion ein gwaith arfer da yw hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau lle bydd y gwersi a ddysgwyd yn sgil llwyddiannau a methiannau cymharol yn cael eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn gynyddol, rydym yn ceisio cynnwys safbwyntiau a phrofiadau arbenigwyr byd-eang yn y sgyrsiau hyn.

Mae ein rhaglen o seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd yn hyblyg, a bydd testunau eraill yn cael eu hychwanegu ati yn ystod y flwyddyn. Ceir mwy o wybodaeth am ein Rhaglen o waith arfer da ar ein gwefan.

**Seminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd**

- Defnyddio digidol i wella bywydau unigolion
- Gwaith partneriaeth rhwng cyrff gwirfoddol a chyrff y sector cyhoeddus
- Modelau cyflenwi amgen

**Gweminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd**

- Caffael cynaliadwy
- Symud o allbynnau i ganlyniadau
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

**Canllawiau arfer da a ddarparwyd**

- Rheoli grantiau

**Hwyluso dysgu ar y cyd a chymorth cymunedol yn allanol**

- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Arfer Da Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (Hwb ACE)
- Canolfannau Arbenigedd Rhanbarthol, Prifysgol Bangor
- Mesur y Mynydd
- Grwpiau ymarferwyr cydgynhyrchu 'Work With Not To'

# Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu effeithiol ac atebolrwydd

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad

Mae ein gwaith yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus pan fydd yn ystyried materion sy’n ymwneud â'r defnydd o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod adrodd interim, mae allbynnau ein gwaith wedi ategu 13 o gyfarfodydd y Pwyllgor, gan gynnwys sesiynau tystiolaeth ynghylch gwybodeg y GIG, rhaglen addysg ac ysgolion yr 21ain ganrif, addasiadau tai, cyllid y GIG, a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar destunau fel y rhaglen Cefnogi Pobl a phrosiect Cylchffordd Cymru.

Gall ein gwaith hefyd osod sail ar gyfer gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gan y pwyllgorau hyn gylch gwaith ehangach sy’n cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, a chraffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn ystod y chwe mis diwethaf, cafodd ein hadroddiad am Berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood ei ddefnyddio gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i ategu ei ymchwiliad ym maes cynhyrchu ffilm a theledu yng Nghymru. Bu tîm yr astudiaeth yn briffio aelodau’r Pwyllgor ynghylch canfyddiadau ein harchwiliad ac yn cefnogi dwy sesiwn i gasglu tystiolaeth lafar gan Weinidogion Cymru.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Drwy gydol y cyfnod adrodd interim, rydym wedi parhau i fynd i’r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio’r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio i roi adroddiadau a briffiau rheolaidd iddynt am ein gwaith. Fel rhan o’r gwaith hwn, rydym wedi cyflwyno canfyddiadau Asesiad Strwythuredig y GIG 2017 ynghylch arbedion ariannol i gadeiryddion pwyllgorau archwilio GIG Cymru, a chyflwyno rôl a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol i fwrdd y corff newydd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

## Cefnogi’r cyhoedd a’u cynrychiolwyr etholedig lleol

Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy’n mynegi pryderon posibl ynghylch y modd y mae arian ac asedau cyhoeddus yn cael eu gwarchod. Yn ystod y cyfnod adrodd interim, daeth 37 darn o ohebiaeth o’r fath i law, ac aethom ati i ymateb i’r pryderon hyn yn brydlon ac mewn ffordd deg, cymesur a phroffesiynol.

Yn ogystal, bu i naw unigolyn gysylltu â ni rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018 i roi gwybod eu bod am wneud datgeliad chwythu’r chwiban.

# Atodiad 4 – Gweithgareddau ymgysylltu a chydweithio

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i weithredu ar sail eu hymrwymiad i ymgysylltu’n effeithiol â rhanddeiliaid i ddatblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, i sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl, ac i estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Rydym hefyd wedi cydweithio’n agos ag asiantaethau archwilio eraill y DU drwy’r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, ynghyd â phrif gyrff adolygu allanol Cymru drwy fenter Arolygu Cymru, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus ac effaith gyfunol ein gwaith.

Rydym yn gallu gwneud trefniadau â mathau penodol o gyrff yn y DU a thramor er mwyn i Swyddfa Archwilio Cymru neu’r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i’r cyrff hynny, neu arfer eu swyddogaethau. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y dylai unrhyw weithgarwch o’r fath ei ariannu ei hun, ac na ddylid ei gyflawni ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

## Darpariaeth gydgysylltiedig

Mae hyn yn cynnwys:

- ter Twyll Genedlaethol gydag asiantaethau archwilio eraill y DU
- Cydweithio ag Estyn i gynnal arolygiadau dilynol o'r Consortia Gwella Addysg Rhanbarthol a'i gynorthwyo i gynnal cynadleddau gwella
- Ardystio cyfrifon Cronfa Amaethyddol Ewrop yn flynyddol
- Rhoi memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith

## Participation with observer status on external working groups

Mae hyn yn cynnwys:

- Cyngor Partneriaeth Cymru
- Fforwm y Gweinidog Cyllid ar Drethi Cymru
- Bwrdd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol
- Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru
- Y Gweithgor Penodiadau Cyhoeddus
- Bwrdd Rhaglen Sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru - Bwrdd Trosolwg ac Adolygu
- Bwrdd Pontio GIG Pen-y-bont ar Ogwr
- Grŵp Llywodraethu Adolygiad Gwybodeg GIG Cymru

## Membership of external working groups

Mae hyn yn cynnwys:

- EURORAI
- Rhwydwaith Adrodd Integredig Sector Cyhoeddus y Cyngor Rhyngwladol ar Adrodd Integredig
- Fforwm Archwilio Cyhoeddus
- Bwrdd Cod Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC
- Pwyllgor Archwilio Sector Cyhoeddus ICAEW
- Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA
- Menter Arolygu Cymru
- Grŵp cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer arolygiaethau'r DU ar y Budd-dal Tai a Diwygio Lles
- Grŵp Cynghori Sector Cyhoeddus y Cyngor Adrodd Ariannol
- Cymryd rhan ym Mhrotocol Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Cynghrair Archwilwyr yr OECD

## Gwaith archwilio a gomisiynwyd

- Archwilio amryw o elusennau
- Gweithredu fel Prif Archwilydd Llywodraeth Anguilla ac archwilio ei chyfrifon
- Grwpiau meincnodi gwastraff masnachol a rheoli gwastraff
- Cydweithio â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad i ddarparu cymorth i swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol yn Montserrat o ran cyflwyno proses archwilio ariannol newydd

# Atodiad 5 – Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Yn ystod hanner cyntaf 2018-19, rydym wedi gwneud cynnydd da i gyflawni blaenoriaethau rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru o ran llywodraethu ac arwain. Yn benodol, rydym wedi:

- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod modd trosglwyddo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phrif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru yn effeithiol i Adrian Crompton yn sgil ymddeoliad Huw Vaughan Thomas.
- Parhau i ddefnyddio map sicrwydd newydd y Bwrdd sy'n paru rheolaethau a ffynonellau sicrwydd â gofynion gwybodaeth y Bwrdd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cynhwysfawr a chadarn ar waith.
- Monitro'r camau i roi prosiectau trawsnewid sefydliadol pwysig ar waith, gan ystyried a oes modd newid:
  - y ffordd yr ydym wedi ymgymryd â'n gwaith yn draddodiadol;
  - y ffordd yr ydym yn defnyddio technoleg ddatblygol;
  - y ffordd yr ydym yn trin ac yn rheoli data;
  - y ffordd yr ydym yn cyfleu canfyddiadau ein gwaith.
- Lansio Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a gwneud trefniadau i sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd da yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb diwygiedig.

Yn ystod ail hanner y flwyddyn, byddwn yn troi ein golygon tuag at y flaenoriaeth sy'n weddill yn ein Cynllun: archwilio sut y gallwn gyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni saith nod llesiant Cymru.

# Atodiad 6 – Ein pobl a'n cyllid

Yn ystod chwe mis cyntaf 2018-19, rydym wedi gwneud cynnydd da i gyflawni blaenoriaethau ein gwaith o ran ein pobl a'n cyllid.

## Ein pobl

- Lansiwyd ein Strategaeth Pobl ym mis Ebrill 2018 ac, ers hynny, rydym wedi llunio rhaglen waith dair blynedd i sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol ac yn effeithlon. Rydym wedi gwneud cynnydd da hyd yma o ran pob un o feysydd blaenoriaeth y Strategaeth ac mae tri grŵp cyflawni o blith y staff sy'n cael eu cadeirio gan aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cadw golwg ar y gwaith. Mae'r grwpiau hyn yn trafod materion penodol o ran diwylliant y sefydliad, datblygu pobl, a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

- Mae cynnwys cynllun cyflawni'r Strategaeth Pobl hefyd yn seiliedig ar y meysydd gwella sy'n deillio o arolwg staff 2017 (fel y'u nodir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18), y gwersi a ddysgwyd o'r 'anghynhadledd' a gynhaliwyd ar gyfer yr holl staff ym mis Chwefror 2018, a'r dadansoddiad o'r wybodaeth cyflogaeth a gyhoeddwyd yn Adroddiad Cydraddoldeb 2016-17.

- Mae gwaith cwmpasu'n mynd rhagddo ar gyfer prosiect i herio ac i drawsnewid y ffordd yr ydym wedi mynd i'r afael â'n gwaith yn draddodiadol, gan gynnwys gwahodd staff i rannu eu barn a'u syniadau ynghylch gweithio hyblyg, lleoliadau gwaith, gweithio digidol a systemau ategol. Disgwylir i'r grŵp prosiect gyflwyno ei argymhellion i'r Bwrdd yn y gwanwyn 2019.

- Yn ystod mis Hydref 2018, rydym hefyd yn cynnal arolwg staff 2018 i gael gwell darlun o brofiadau cyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru ac i bennu meysydd lle mae angen inni wella. Rydym yn defnyddio'r holiadur craidd a ddefnyddir ar gyfer Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn 2018 i sicrhau bod modd inni feincnodi ein canlyniadau'n effeithiol.

## Ein cyllid

- Ar ddiwedd mis Medi 2018, roedd ein sefyllfa ariannol yn cyd-fynd fwy neu lai â’n rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer y cyfnod. Mae ein rhagolygon yn cadarnhau ein bod ar y trywydd iawn i gydymffurfio â chwmpasau’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cynulliad, i gyrraedd ein targed o gyflawni £250,000 o arbedion effeithlonrwydd yn 2018-19, ac i fodloni targed y dangosydd perfformiad o ran alldro’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- Fel y nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar y meysydd ariannol a ganlyn yn ystod y cyfnod adrodd:
  - gwella ein defnydd o ddadansoddeg data, gan gynnwys defnyddio codio cyfrifiadurol i awtomeiddio rhai agweddau ar ein gwaith dadansoddi data, a defnyddio meddalwedd delweddu data i gyflwyno allbynnau ein gwaith mewn ffyrdd craffach i gynyddu eu heffaith ac i hwyluso dealltwriaeth ohonynt;
  - paratoi ar gyfer y drefn newydd o gau cyfrifon llywodraeth leol Cymru’n gynharach;
  - llunio, cynllunio a lansio cynllun prentisiaethau newydd Cymru ar gyfer cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus;
  - hwyluso camau i gynnal y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru bob dwy flynedd;
  - cefnogi amryw o brosiectau buddsoddi cyfalaf sy’n gysylltiedig â’n strategaeth TG, gan gynnwys rhaglen dreigl i adnewyddu cyfrifiaduron/cyfarpar TG i sicrhau bod busnes yn parhau a bod y cyfarpar yn parhau i fod yn ddibynadwy ac yn gyfredol, adnewyddu’r seilwaith fideogynadledda, ac adnewyddu seilwaith y rhwydwaith data sy’n gysylltiedig â’n swyddfeydd.
- Ar 1 Ebrill 2018, cafodd y system gyllid newydd ei chyflwyno'n llwyddiannus ac, yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y system newydd yn ennill ei phlwyf ac ar wneud newidiadau angenrheidiol i’n prosesau ategol. Gan fod y system newydd yn gallu cyflawni mwy o swyddogaethau, bu hefyd modd inni ymateb yn fwy cadarn ac effeithiol i argymhellion archwilio mewnol drwy gryfhau ein prosesau archebion prynu.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru